

Cod Ymarfer ar gyfer Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Dogfen ymgynghori

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar y Cod Ymarfer ar gyfer arolygu. Mae'r Cod yn ofyniad o dan adran 161A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gefn y ddogfen hon, erbyn hanner nos ar 17 Rhagfyr 2018. Dylid anfon ymatebion dros e-bost i cssiw.riscact@llyw.cymru neu i'r cyfeiriad isod:

Prosiect Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
Arolygiaeth Gofal Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Os cewch unrhyw anawsterau wrth gyflwyno eich ymateb neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â ni dros e-bost neu ar y rhif ffôn isod.

Ffôn: 0300 7900 126

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff AGC sy'n delio â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Pan fydd AGC yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i gael ei gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae AGC yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallwn gyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu gyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hyn yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna, byddwn yn eu hepgor cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata a gedwir fel arall gan AGC eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a chael gafael arnynt
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny
- i (mewn amgylchiadau penodol) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- i (mewn amgylchiadau penodol) ofyn am i'ch data gael eu 'dileu'
- i (mewn amgylchiadau penodol) ofyn am i'ch data gael eu symud
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am ragor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch a'r defnydd a wneir ohoni, neu i arfer eich hawl o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cefndir

Mae newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau ledled Cymru. Caiff y newidiadau eu diffinio yn [Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) (Deddf 2016) sy'n ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gweithio ochr yn ochr â [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#). Mae Deddf 2016 yn sefydlu system newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu a fydd yn diogelu hawliau dinasyddion Cymru i gael gofal urddasol, diogel a phriodol.

Roedd Adran 33 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i God Ymarfer ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig gael ei baratoi a'i gyhoeddi. Cyhoeddwyd hwn ym mis Ebrill 2018¹.

Mae Deddf 2016 yn ychwanegu darpariaethau at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) sy'n ymdrin â rheoleiddio'r ffordd y caiff swyddogaethau awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya eu cyflawni. Mae Adran 56 o Ddeddf 2016 yn ychwanegu darpariaethau at Ddeddf 2014 (adran 161A) i'w gwneud yn ofynnol i gael Cod Ymarfer ar y ffordd y mae AGC yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r Cod Ymarfer yn disgrifio ein dull o adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn cynnwys pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn. Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â ph'un a yw'r Cod Ymarfer yn darparu digon o wybodaeth am y modd y bydd AGC yn cynnal adolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Newidiadau allweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu hadolygu

Nid yw pwerau cyfreithiol AGC i adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi newid yn sylweddol o'r pwerau a nodwyd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003.

Bydd ein gweithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad i adolygu awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau pobl, chaiff ei ategu gan Ddeddf 2014 a chodau ymarfer cysylltiedig.

Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich safbwyntiau ar y Cod Ymarfer sy'n nodi sut y caiff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru eu hadolygu.

¹ Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu - <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180612-cod-ymarfer-cy.pdf>

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|--------------------------------|--|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |
| E-bost / rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

C1. A yw ein dull o werthuso perfformiad ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn glir? (Adran 4, 5 a 6 o'r Cod Ymarfer)

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
| Eglurwch | | | |

C2. A ydych yn cytuno â'n dull o ymgysylltu â Phrif Weithredwr yr awdurdod lleol gyda phartneriaid Arolygu Cymru? (Adran 5 o'r Cod Ymarfer)

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
| Eglurwch | | | |

C3. A ydych yn cytuno â pha mor aml y bwriedir cynnal ein hadolygiadau o awdurdodau lleol? (Adran 5 a 6 o'r Cod Ymarfer)

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|

Eglurwch

C4. A ydych yn cytuno â'n dull gweithredu o ran y cyfnod hysbysu ar gyfer arolygiad? (Adran 6 o'r Cod Ymarfer)

Noder – mae'r amllder hwn yn cyd-fynd â'r ffaith ein bod yn disgwyl llai o weithgarwch cyn arolygu gan yr awdurdod lleol. Mae hyn er mwyn cyfyngu ar y cyfnod o darfu a achosir gan yr arolygiad.

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|

Eglurwch

C5. A ydych yn cytuno â'n dull o roi adborth ar arolygiadau ac adrodd arnynt, yn cynnwys amserlenni ar gyfer cyhoeddi ein hadroddiadau arolygu? (Adran 8 o'r Cod Ymarfer)

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|

Eglurwch

| |
|--|
| |
|--|

Mae'r Cod yn nodi'r drefn i'r awdurdod lleol gyflwyno'r adroddiad arolygu i aelodau etholedig. (Adran 8 o'r Cod Ymarfer). Rydym am gael eich safbwyntiau ar p'un a ydych o'r farn y dylai AGC nodi'n benodol y dylai'r adroddiad arolygu gael ei gyflwyno i bwyllgor craffu'r awdurdod lleol, y Cabinet neu'r Cyngor llawn neu p'un a ddylid gadael i'r awdurdod lleol benderfynu ar hyn.

C6. A ydych yn meddwl y dylai AGC nodi p'un a ddylai'r adroddiad arolygu gael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu, y Cabinet neu'r Cyngor llawn?

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|

Eglurwch

| |
|--|
| |
|--|

C7. A yw'r Cod Ymarfer yn darparu digon o eglurder ynghylch sut y byddwn yn ymateb os byddwn yn nodi pryderon difrifol neu sylweddol? (Adran 10 o'r Cod Ymarfer)

| | | | |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|
| Cytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/> | Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/> | Anghytuno <input type="checkbox"/> |
|------------------------------------|---|--|---------------------------------------|

Eglurwch

| |
|--|
| |
|--|

| | |
|--|--|
| <p>Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi – ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch BYDDAI yn y blwch.</p> | |
|--|--|